| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 5 Ebrill 2017 |
| **TEITL** | Aelodau Lleol ar y Cydbwyllgor Ymgynghorol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r cefndir |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Cadw at y drefn bresennol o ran aelodaeth y Cydbwyllgor |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Adroddiad hon wedi ei chynnwys ar raglen y Cydbwyllgor yn dilyn trafodaeth flaenorol am nifer yr Aelodau Lleol sydd yn eistedd ar y Gydbwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

1.2 Pwrpas yr adroddiad yw trafod ac egluro'r oblygiadau, a'r broses, o newid cyfansoddiad Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE o ran nifer yr Aelodau Lleol all fod yn aelodau o'r Cydbwyllgor ar unrhyw un adeg.

## 2.0 Y SEFYLLFA BRESENNOL

2.1 Ar hyn o bryd mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai 5 Aelod Lleol sydd yn aelodau o'r Cydbwyllgor. Yr Aelodau presennol yw rhai dros ardaloedd Aberdaron, Abersoch, Clynnog, Llanbedrog a Nefyn. Hefyd wrth gwrs mae cynrychiolwyr nifer o fudiadau a sefydliadau eraill yn rhan o aelodaeth y Cydbwyllgor.

2.2 Yn ei ffurf bresennol mae'r Cyfansoddiad yn nodi fod Aelodau yn cael eu cyfnewid yn dilyn etholiadau lleol. Byddai hyn yn golygu fod yr Aelodau presennol yn sefyll i lawr a 5 aelod newydd yn dod ar y Cydbwyllgor yn dilyn yr etholiadau yn mis Mai 2017.

2.3 O dan y drefn hon, cyfnod o 4-5 mlynedd (yn ddibynnol ar amseru etholiadau lleol) fydd Aelodau yn ei dreulio ar y Cydbwyllgor.

## 3.0 YSTYRIED NEWID

3.0 Yn Mehefin 2015 trafodwyd y posibilrwydd o newid y Cyfansoddiad i ganiatáu i bob Aelod Lleol mewn wardiau yn yr AHNE (yn rhannol neu gyfan gwbl) ddod yn aelodau o'r Cydbwyllgor. Adeg hynny roedd disgwyl y byddai ffiniau wardiau yr ardal yn newid ac y byddai llai o Aelodau Lleol dros ardal yr AHNE.

3.1 Fodd bynnag, ni fu unrhyw newid yn y wardiau ac mae cyfanswm yr Aelodau gyda wardiau sydd yn yr AHNE (yn rhannol neu gyfan gwbl) yn 11. Pe byddai'r holl Aelodau hyn yn rhan o'r Cydbwyllgor byddai nifer aelodau'r Cydbwyllgor yn cynyddu o 27 i 33.

3.2 Os bydd y drefn bresennol yn cael ei newid byddai'r holl Aelodau perthnasol o Gyngor Gwynedd ar y Cydbwyllgor yn barhaol ac mewn mwyafrif sylweddol i'w gymharu â sefydliadau eraill. Rhaid cofio hefyd fod sedd i gynrychiolydd o bob Cyngor Cymuned yn yr AHNE yn barod.

## 4.0 TREFNIADAU

4.1 Bydd angen pleidlais yn y Cydbwyllgor os am newid y Cyfansoddiad er mwyn caniatáu i holl Aelodau perthnasol Cyngor Gwynedd fod ar y Cydbwyllgor. Hefyd, yn dilyn hynny, bydd angen cadarnhau'r newid drwy Gabinet Cyngor Gwynedd neu benderfyniad yr Aelod Cabinet (fel y gwnaed yn achos y newid diweddar fu o ran pwy all weithredu fel Cadeirydd).